# Senario 1

**Rydych yn trefnu bod ffrindiau yn aros y nos yn eich tŷ ac rydych yn edrych ar YouTube gyda'ch ffrindiau. Wrth i chi wylio mae neges yn ymddangos yn hysbysebu sylwedd a labelir 'ddim i'w gymryd gan berson' ond rydych wedi clywed ei fod yn rhoi 'anterth' i chi. Mae un o'ch ffrindiau yn awgrymu y byddai'n hwyl i archebu ychydig ohono.**




**1. Beth fyddech chi'n ei wneud?**
**2. Os penderfynwch chi brynu, beth allai'r canlyniadau fod?**
**3. Sut allech ddweud na?**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## Senario 2

**Rydych mewn parti yn nhŷ eich ffrind ac yn darganfod cyffuriau presgripsiwn yng nghwpwrdd yr ystafell ymolchi. Rydych yn eu dangos i ffrind sy'n meddwl y gallai fod yn hwyl i'w rhoi yn niod rhywun a gweld beth sy'n digwydd.**



**1. Beth fyddech chi'n ei wneud?**
**2. Os penderfynwch chi sbeicio diod eich ffrind, beth allai'r canlyniadau fod?**
**3. Sut allech chi ddweud na?**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## Senario 3

**Rydych yn y parc gyda grŵp o ffrindiau hŷn sydd i gyd yn yfed alcohol. Maent yn cynnig diod i chi. Pan fyddwch yn gwrthod maent yn rhoi pwysau arnoch i ymuno.**

**1. Beth fyddech chi'n ei wneud?**
**2. Os penderfynwch dderbyn, beth allai'r canlyniadau fod?**
**3. Sut allech chi ddweud na?**





Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## Senario 4

**Dechreuodd un o'ch ffrindiau ysmygu canabis y llynedd; erbyn hyn mae'n ddefnyddiwr cyson. Mae wedi dod yn oriog ac yn paranoid, yn colli ysgol ac mae ei waith yn dioddef. Mae'n dal ati i ofyn i chi roi benthyg arian iddo.**



1. **Beth fyddech chi'n ei wneud?**
2. **Beth allai canlyniadau eich gweithred fod?**
3. **Sut allech chi ddweud na?**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## Senario 5



**Rydych gyda grŵp o ffrindiau sy'n casglu o amgylch siopau. Mae swyddog heddlu yn gweld pecyn bach yn cael ei drosglwyddo ac mae'n amau bod gennych gyffur anghyfreithlon yn eich meddiant. Yn eich pecyn mae gennych gyffur yr ydych chi'n tybio sy'n gyfreithlon.**

1. **Beth fyddech chi'n ei wneud?**
2. **Beth allai canlyniadau eich gweithred fod?**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023